
# Polisi Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cefndir** | 3 |
| 2 | **Cyflwyniad** | 4 |
| 3 | **Egwyddorion rheoleiddio**<br>(i) Cymesur<br>(ii) Atebol<br>(iii) Cyson<br>(iv) Tryloyw<br>(v) Targedu | 6 |
| 4 | **Cwynion statudol o dan adran 93 Mesur y Gymraeg**<br>- Cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd<br>- Y Comisiynydd yn dilysu'r gŵyn<br>- Penderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio | 8 |
| 5 | **Tystiolaeth arall o amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon** | 12 |
| 6 | **Ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon**<br>- Rhoi cyfle i'r person perthnasol ac i achwynydd wneud sylwadau yn ystod ymchwiliad statudol<br>- Rhoi hysbysiad tystiolaeth i berson perthnasol neu i unrhyw berson arall<br>- Pŵer i fynd i mewn ac i archwilio<br>- Dirmyg llys<br>- Penderfynu terfynu ymchwiliad statudol<br>- Dyfarnu ar ymchwiliad statudol | 13 |
| 7 | **Dyfarnu ar ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon**<br>- Dim methiant i gydymffurfio â safon<br>- Eglurhad o'r pwerau sydd ar gael i'r Comisiynydd | 18 |
| 8 | **Methiant i gydymffurfio â safon**<br>- Adfer cydymffurfiaeth yn sgil y methiant<br>- Gorfodi cydymffurfiaeth yn sgil y methiant<br>- Gosod cosb sifil am y methiant | 23 |
| 9 | **Cosb sifil**<br>**Materion perthnasol eraill** | 25 |
| 10 | **Methiant i gydymffurfio â cham gorfodi neu gytundeb setlo** | 26 |
| 11 | **Cydweithio â'r Ombwdsmon a chomisiynwyr eraill** | 28 |
| 12 | **Cofrestr camau gorfodi** | 29 |
| 13 | **Rhestr termau** | 30 |
| 14 | **Gweithdrefn gwyno am weithredoedd y Comisiynydd** | 34 |

# 1 Cefndir

1.1 Mae'r polisi hwn yn ddogfen statudol a luniwyd yn unol ag adran 108 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 [Mesur y Gymraeg]. Dogfen ydyw sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth ar y ffordd y mae Comisiynydd y Gymraeg [y Comisiynydd] yn bwriadu mynd ati i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd o dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.

1.2 Prif gynulleidfa darged y polisi yw'r personau perthnasol hynny y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad [safonau] mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i'r cyhoedd, ac i bersonau[1] sy'n dymuno cwyno wrth y Comisiynydd ynglŷn ag ymddygiad honedig person perthnasol.

1.3 Bydd y Comisiynydd yn adolygu gweithrediad y polisi hwn yn barhaus, yn ei gyhoeddi ar y wefan ac yn ei arddangos yn holl swyddfeydd a safleoedd y Comisiynydd.

1.4 Gellir cael rhagor o wybodaeth am swyddogaethau eraill y Comisiynydd ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.

1.5 Derbyniodd y polisi hwn gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar 26/03/2015 yn unol ag adran 108(4) Mesur y Gymraeg.

[1] Mae person yn y cyd-destun hwn yn cynnwys unrhyw unigolyn neu gorff o bersonau corfforaethol neu anghorfforaethol.

## 2 Cyflwyniad

2.1 Mae Mesur y Gymraeg yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn cyflwyno dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Gelwir sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau yn bersonau perthnasol. Ceir safonau yn y meysydd canlynol:



- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion.

2.2 Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn golygu bod rhaid i bersonau perthnasol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Cysyllta hyn â'r egwyddorion sy'n sail i waith y Comisiynydd sef:

- statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
- i'r dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod (neu a all gael eu gosod) drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny
- na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

2.3 Mae hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol gan y Comisiynydd dan Fesur y Gymraeg yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy ynghyd â'r diwrnodau gosod[2] ar gyfer y safonau hynny. Bydd copïau o'r hysbysiadau cydymffurfio hynny sydd mewn grym ar wefan y Comisiynydd.

2.4 Tra bydd hysbysiad cydymffurfio sy'n benodol iddo ef mewn grym, bydd yn ofynnol i berson perthnasol gydymffurfio â safon.

2.5 Mewn perthynas â'r uchod, mae gan y Comisiynydd swyddogaethau rheoleiddiol statudol o dan Fesur y Gymraeg er mwyn sicrhau bod personau perthnasol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Gall hynny gynnwys safon y mae'n ofynnol i'r person perthnasol gydymffurfio â hi, yn gam gorfodi[3] a osodwyd arno neu'n gytundeb setlo yr ymrwymwyd iddo. Mae'r polisi hwn yn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch sut y bydd y Comisiynydd yn arfer y swyddogaethau rheoleiddiol hynny.

[2] Y diwrnod oddi ar bryd y mae'n ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon, neu â'r safon mewn modd penodol.
[3] Camau gorfodi yw'r enw a roddir ar y camau a nodir yng nghymal 7.5(ii) y polisi hwn.

## 2 Cyflwyniad

2.6 Y swyddogaethau rheoleiddiol sy’n deillio o Ran 5 Mesur y Gymraeg yw:



- llunio dogfen polisi gorfodi
- ystyried cynnal ymchwiliadau statudol i amheuon o fethiannau personau perthnasol i gydymffurfio
- delio â chwynion am ymddygiad honedig personau perthnasol
- cynnal ymchwiliadau statudol i amheuon o fethiannau personau perthnasol i gydymffurfio
- defnyddio pwerau er mwyn atal methiannau i gydymffurfio rhag parhau neu gael eu hailadrodd
- gosod cosbau sifil am fethiannau personau perthnasol i gydymffurfio
- gwneud ceisiadau i lys sirol am orchmynion llys i orfodi cydymffurfiaeth
- cydymffurfio â’r dyletswyddau sy’n deillio o apelau a cheisiadau am adolygiadau a wnaed i Dribiwnlys y Gymraeg [y Tribiwnlys] a
- chreu a chynnal cofrestr camau gorfodi.


2.7 Mae prosesau statudol i’w dilyn wrth i’r Comisiynydd fynd ati i arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol. Manyla’r polisi hwn ar yr agweddau sydd ynghlwm â’r prosesau hynny.

## 3 Egwyddorion rheoleiddio

3.1 Mae’r Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i rai rheoleiddwyr[4] roi sylw i egwyddorion rheoleiddio da wrth arfer swyddogaethau rheoleiddiol penodol.

3.2 Yn unol ag adran 22 y ddeddf a nodir uchod, lluniwyd Cod y Rheoleiddwyr a daeth i rym ar 6 Ebrill 2014 gan ddisodli Cod Cydymffurfiaeth y Rheoleiddwyr a’r Concordat Gorfodi blaenorol. Mae’r cod yn darparu fframwaith clir ar gyfer y modd y dylai rheoleiddwyr ymgysylltu â’r sawl y maent yn eu rheoleiddio. Nid oes dyletswydd statudol ar y Comisiynydd i ddilyn y cod, ond rhoddwyd sylw llawn iddo wrth lunio’r polisi hwn yn unol ag argymhelliad y Swyddfa Rheoliadau Gwell[5] a Llywodraeth Cymru[6].

3.3 Bydd y Comisiynydd yn gweithredu mewn modd cadarn ond teg gan ddefnyddio’r pwerau mwyaf priodol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau a sicrhau cydymffurfiaeth. Yn unol â’r uchod, bydd y Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol drwy ddilyn y pum egwyddor a nodir isod:




### (i) Cymesur

3.4 Wrth ystyried amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio, bydd y Comisiynydd yn gymesur wrth benderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad statudol ai peidio. Gyda hyn mewn golwg, bydd y Comisiynydd yn ystyried ffeithiau pob achos yn unigol.

3.5 Wrth benderfynu pa gamau dilynol i’w cymryd yn sgil dyfarnu bod methiant i gydymffurfio, bydd y Comisiynydd yn ystyried yr hyn sy’n gymesur er mwyn atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd[7].

3.6 Os canfyddir bod person perthnasol wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw gam gorfodi neu gytundeb setlo, bydd y Comisiynydd yn cymryd camau pellach yn erbyn y person perthnasol.

[4] Mae gan y Comisiynydd statws rheoleiddiwr perthnasol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
[5] Yn eu dogfen *‘Regulators’ Code: Frequently Asked Questions’*, mae’r Swyddfa Rheoliadau Gwell yn nodi *“We recommend that regulators acting outside the statutory scope of the Regulators’ Code should adopt it on a voluntary basis”*.
[6] Yn ei dogfen *‘Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru’*, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod “yn disgwyl i gyrff yng Nghymru, wrth iddynt wneud gwaith gorfodi mewn perthynas â rheoleiddio, weithredu’n unol â’r egwyddorion” hyn.
[7] Gweler Pennod 6 y polisi hwn.

### (ii) Atebol

3.7 Bydd y Comisiynydd yn atebol am y penderfyniadau a wneir drwy dderbyn sylwadau ac adborth am y gwaith gorfodi a'r ffordd y defnyddir y pwerau. Mae gan y Comisiynydd drefn gwyno y gall person ei defnyddio er mwyn mynegi unrhyw bryderon ynghylch gwaith a phenderfyniadau'r Comisiynydd[8].

3.8 Mae Mesur y Gymraeg yn darparu mecanwaith sy'n rhoi hawl i bersonau perthnasol ac achwynwyr apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn rhai o benderfyniadau'r Comisiynydd. Gall achwynwyr wneud cais iddo adolygu penderfyniad y Comisiynydd mewn rhai achosion[9]. Manylir ar yr hawliau hynny o dan yr adrannau perthnasol yn y polisi hwn.

### (iii) Cyson

3.9 Bydd y Comisiynydd yn gyson wrth arfer swyddogaethau Rhan 5 o Fesur y Gymraeg, wrth weithredu polisi gorfodi ac wrth wneud penderfyniadau yn ei gylch. Golyga y bydd y Comisiynydd yn gweithredu dull cyson wrth ystyried ffeithiau pob achos yn unigol ac wrth benderfynu ar ymateb priodol. Drwy weithredu yn y modd hwnnw, bydd yn sicrhau tegwch, gwrthrychedd ac amhleidioldeb wrth ymdrin â gwahanol bartïon.

### (iv) Tryloyw

3.10 Bydd y Comisiynydd yn dryloyw wrth ymdrin â'i swyddogaethau rheoleiddiol gan sicrhau bod y cyhoedd a phersonau perthnasol yn deall sut yr arferir y swyddogaethau hynny. Mae'r Comisiynydd yn cadw cofnod o fanylion yr holl ymchwiliadau statudol a gynhaliwyd, gan gynnwys unrhyw gamau dilynol a gymerwyd, drwy gynnal cofrestr camau gorfodi. Bydd yn cyhoeddi gwybodaeth ar ffurf cofrestr camau gorfodi.

### (v) Targedu

3.11 Bydd y Comisiynydd yn targedu gwaith rheoleiddio drwy weithredu ar nifer o fesurau penodol, gan gynnwys risg. Bydd y Comisiynydd hefyd yn ystyried rhannu adnoddau gydag eraill lle bo modd, a hynny er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu.

3.12 Gall y Comisiynydd gydweithio â'r Ombwdsmon a chomisiynwyr eraill wrth gynnal ymchwiliad statudol mewn rhai achosion[10] neu ddefnyddio trydydd partïon[11]. Bydd y Comisiynydd yn ystyried amgylchiadau'r achos unigol er mwyn dod i benderfyniad ar y dull mwyaf addas o weithredu.

[8] Gweler adran 14 y polisi hwn.
[9] Mewn rhai achosion, mae angen caniatâd y Tribiwnlys i apelio.
[10] Gweler adran 11 y polisi hwn ac Adran 20 Mesur y Gymraeg.
[11] Gweler Adran 11(2)(c) Mesur y Gymraeg

## 4 Cwynion statudol o dan adran 93 Mesur y Gymraeg

4.1 Un o swyddogaethau rheoleiddiol y Comisiynydd yw delio â chwynion o dan adran 93 Mesur y Gymraeg. Bydd ffocws y Comisiynydd wrth ddelio â chwynion ar geisio cael datrysiad boddhaol i'r achwynydd, boed hynny yn sgil cynnal ymchwiliad statudol neu drwy ddulliau eraill. Lle bydd yn canfod methiant i gydymffurfio, bydd hefyd yn ystyried a oes angen cymryd camau dilynol er mwyn atal y methiant hwnnw rhag parhau neu gael ei ailadrodd.



### Cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd

4.2 Gall person gwyno wrth y Comisiynydd ynglŷn ag ymddygiad person perthnasol mewn cysylltiad â safon y mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â hi.

4.3 Rhaid i'r achwynydd fod yn berson y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arno'n uniongyrchol, neu'n berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.

4.4 Bydd y Comisiynydd yn derbyn cwynion ysgrifenedig drwy'r post, e-bost, drwy'r wefan a thrwy rwydweithiau cymdeithasol. Er mwyn sicrhau hygyrchedd, bydd modd i'r sawl na all gyflwyno cwyn yn ysgrifenedig oherwydd eu hamgylchiadau personol, gysylltu â'r Comisiynydd dros y ffôn, neu unrhyw gyfrwng addas arall i egluro hynny ac i drafod eu cwyn. Bydd y Comisiynydd yn gwneud darpariaeth resymol gan ddarparu cymorth iddynt gyflwyno cwyn drwy ddull arall.

4.5 Mae'r Comisiynydd yn cymell achwynwyr i gwyno wrth y person perthnasol yn y lle cyntaf, er mwyn rhoi cyfle iddo ymateb, a chynnig datrysiad i'r gŵyn, lle bo methiant wedi'i gyflawni. Serch hynny rhaid ei gwneud yn glir nad oes unrhyw reidrwydd ar yr achwynydd i gyflwyno cwyn i berson perthnasol. Ymhellach mae dyletswydd ar y Comisiynydd i ystyried pob cwyn y mae'n ei derbyn.

4.6 Mae disgwyl i achwynydd, neu berson sy'n gweithredu ar ei ran, gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd o fewn blwyddyn ar ôl iddo ddod yn ymwybodol o'r ymddygiad honedig. Fel arall, os cyflwynir cwyn tu hwnt i'r cyfnod o flwyddyn, bydd y Comisiynydd ond yn ei hystyried os yw o'r farn fod hynny'n briodol. Gall sefyllfaoedd felly gynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i, sefyllfaoedd fel y canlynol:

- ymddygiad honedig yn parhau
- methiant difrifol i gydymffurfio yn cael ei amlygu
- sylw cyhoeddus sylweddol yn yr achos neu
- achwynydd â rheswm dilys dros beidio â chyflwyno'r gŵyn ynghynt.

4.7 Rhaid i achwynydd gynnwys manylion digonol ynghylch y canlynol yn ei gŵyn:

- pwy yw'r person perthnasol y cwynir amdano
- beth yw'r ymddygiad honedig
- sut mae'r ymddygiad wedi effeithio ar yr achwynydd ac
- enw a manylion cyswllt yr achwynydd.

4.8 Gall methiant i gynnwys y manylion hyn olygu na all y Comisiynydd ystyried y gŵyn ymhellach.

### Y Comisiynydd yn dilysu'r gŵyn

*4.9* Bydd y Comisiynydd yn cydnabod derbyn pob cwyn ysgrifenedig yn ymwneud ag ymddygiad person perthnasol a dderbynnir o fewn 5 niwrnod gwaith. Hysbysir yr achwynydd a yw'r gŵyn yn un ddilys o dan adran 93 a'i peidio *mor fuan ag y bo modd wedi hynny.*

4.10 Os cesglir nad yw'r gŵyn yn un ddilys, a hynny am nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion a nodir yng nghymalau 4.4 a 4.7 y polisi hwn[12], bydd y Comisiynydd yn egluro sut gall yr achwynydd gyflwyno cwyn ddilys, os yw hynny'n briodol.

4.11 Os cesglir bod cwyn yn un ddilys, yna mae dyletswydd ar y Comisiynydd i ystyried cynnal ymchwiliad statudol i'r cwestiwn a yw ymddygiad honedig y person perthnasol yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon. Dim ond os yw'r Comisiynydd yn amau bod y person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon y caiff ymchwiliad statudol ei gynnal i'r perwyl hwn. Mae rhai achosion wedi'u heithrio o'r ddyletswydd hon sef:

- pan fo'r gŵyn wedi'i gwneud fwy na blwyddyn ar ôl i'r achwynydd ddod yn ymwybodol o'r ymddygiad honedig
- os yw'r Comisiynydd o'r farn fod y gŵyn yn wacsaw neu'n flinderus[13] neu
- os tynnir y gŵyn yn ôl.

4.12 Os yw'r Comisiynydd o'r farn fod y gŵyn yn wacsaw neu'n flinderus, neu os tynnir y gŵyn yn ôl, bydd y Comisiynydd yn penderfynu cau'r gŵyn. Nid yw cau cwynion am y rhesymau a nodir yn y paragraff hwn yn gyfystyr â dweud na fyddai'r Comisiynydd yn ystyried gwneud ymchwiliad yn unol â'r disgresiwn sydd ganddi o dan adran 93(8) o'r Mesur.

[12] Gweler hefyd Adran 93(3-6) Mesur y Gymraeg
[13] Gweler y diffiniad o gwacsaw a blinderus yng nghefn y ddogfen hon.

4.13 Gall nifer o amgylchiadau arwain y Comisiynydd i gasglu bod cwyn yn un wacsaw neu flinderus. Gall hynny gynnwys amgylchiad lle bo'r achwynydd yn cyflwyno cwyn ddisylwedd neu'n newid sylwedd y gŵyn, codi materion amherthnasol, gosod gofynion afresymol ar y Comisiynydd neu'n cysylltu â'r Comisiynydd mewn modd a ystyrir yn afresymol.

4.14 Mewn amgylchiadau lle nad yw'r Comisiynydd o'r farn bod cwyn yn ddilys, bydd y Comisiynydd yn hysbysu'r achwynydd o'i phenderfyniad a'i rhesymau dros hynny, ac yn ei hysbysu o'i hawl, gyda chaniatâd y Tribiwnlys, i wneud cais iddo adolygu'r penderfyniad hwnnw.

### Penderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio

4.15 Yn y mwyafrif o achosion bydd y Comisiynydd yn cysylltu â'r person perthnasol, gan roi cyfle iddo ddarparu gwybodaeth i'r Comisiynydd mewn cysylltiad â honiad achwynydd. Gwneir hynny am resymau ymarferol ac er mwyn cael digon o wybodaeth i'r Comisiynydd allu penderfynu ymchwilio ai peidio mewn cysylltiad â'r ymddygiad honedig. Bydd y cais am wybodaeth yn glir ac yn ymwneud â gwirio dilysrwydd ffeithiol y gŵyn. Bydd y Comisiynydd yn disgwyl derbyn ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith. Fodd bynnag, bydd y Comisiynydd yn agored i dderbyn cais am estyniad rhesymol (o ddim mwy na 10 diwrnod gwaith pellach) gan berson perthnasol, os oes rhesymau dilys dros hynny. Bydd y wybodaeth a dderbynnir (neu unrhyw ddiffyg i ddarparu) yn cyfrannu at y ffactorau fyddai'n cynorthwyo'r Comisiynydd i ddod i benderfyniad os dylid cynnal ymchwiliad o dan adran 71.

4.16 Cedwir hawl y Comisiynydd i ystyried cynnal ymchwiliad statudol i'r gŵyn yn syth os yw amgylchiadau unigol y gŵyn yn gofyn am hynny. Gall amgylchiadau felly gynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i, amgylchiadau fel y canlynol:

- cwyn yn codi amheuaeth o fethiant difrifol i gydymffurfio
- cwyn yn gofyn am weithredu brys a
- lle mae tystiolaeth ddiamheuol eisoes wedi ei darparu gan yr achwynydd fel rhan o'r gŵyn.

4.17 Bydd y Comisiynydd yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r achwynydd a'r person perthnasol ac yn darparu cyswllt o fewn ei swyddfa y gallant gysylltu ag ef er mwyn trafod y gŵyn.

4.18 Y Comisiynydd fydd yn penderfynu a yw am gynnal ymchwiliad statudol ai peidio. Wrth ddod i benderfyniad, bydd y rhesymau dros unrhyw benderfyniad yn cael eu cofnodi gyda'r penderfyniad hwnnw.

4.19 Ar ôl dod i benderfyniad, bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i'r achwynydd a'r person perthnasol, lle bo'n berthnasol. Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad statudol, bydd yn egluro i'r achwynydd ei rhesymau dros beidio.

4.20 Os bydd yr achwynydd yn anfodlon â phenderfyniad y Comisiynydd yn y cyswllt hwn, bydd modd iddo, gyda chaniatâd y Tribiwnlys, wneud cais iddo adolygu'r penderfyniad hwnnw. Bydd y Comisiynydd yn hysbysu'r achwynydd o'r hawl hwnnw.

## 5 Tystiolaeth arall o amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon

5.1 Yn ogystal â thrwy dderbyn cwynion statudol, gall amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon ddod i sylw'r Comisiynydd drwy ffynonellau tystiolaeth eraill.

5.2 Un o'r ffynonellau hynny fydd y gwaith gwirio cydymffurfiaeth personau perthnasol â'r safonau a osodwyd arnynt.



5.3 Gall amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon ddod i'r amlwg drwy ffynonellau eraill gan gynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i hynny, y canlynol:

- gwybodaeth y bydd y Comisiynydd yn ei chanfod wrth weithredu ei swyddogaethau eraill o dan Fesur y Gymraeg e.e. gwybodaeth a amlygir yn sgil cynnal ymholiad o dan adran 7 y Mesur
- gwybodaeth sy'n amlygu methiant person perthnasol i gydymffurfio â darpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer[14] a ddyroddir gan y Comisiynydd
- gwybodaeth sy'n ymddangos ar y cyfryngau
- gwybodaeth gan y cyhoedd neu unrhyw berson arall
- gwybodaeth y mae'r person yn ei darparu i'r Comisiynydd neu yn ei chyhoeddi yn unol â'r safonau y mae'n ofynnol i berson gydymffurfio â hwy.

5.4 Pan fydd amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon yn cael ei amlygu drwy ffynonellau fel yr uchod, a chyn cynnal ymchwiliad, bydd y Comisiynydd yn dilyn yr un camau ag a amlinellir yng nghymalau 4.15 – 4.19 y polisi hwn, gan eithrio unrhyw gyfeiriadau sydd at achwynydd a chan ddarllen unrhyw gyfeiriad at 'gŵyn' fel cyfeiriad at 'achos'.

[14] Er mai pwrpas codau ymarfer yw darparu canllawiau ymarferol ynghylch gofynion y safonau, gall y Comisiynydd ddibynnu ar fethiant person perthnasol i gydymffurfio â chynnwys cod ymarfer fel rhywbeth sy'n tueddu i gadarnhau methiant i gydymffurfio â safon benodol.

## 6 Ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon

6.1 Wedi i'r Comisiynydd benderfynu bod cynnal ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon yn briodol, boed hynny yn sgil derbyn cwyn o dan adran 93 neu drwy unrhyw ffynhonnell arall, bydd yn mynd ati i baratoi cylch gorchwyl.



6.2 Bydd y cylch gorchwyl yn pennu'r person perthnasol yr ymchwilir iddo a'r methiant a amheuir. Gall y cylch gorchwyl hwnnw gynnwys mwy nag un amheuaeth o fethiant, lle bo hynny'n berthnasol. Bydd y cylch gorchwyl hefyd yn cynnig amserlen arfaethedig yr ymchwiliad.

6.3 Rhoddir cyfle rhesymol i'r person perthnasol ac i achwynydd, os yw'r ymchwiliad statudol yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93, wneud sylwadau ar y cylch gorchwyl arfaethedig. Bydd y Comisiynydd yn ystyried unrhyw sylwadau a wneir cyn cyhoeddi'r cylch gorchwyl terfynol, gan hysbysu'r personau hynny ohono.

### Rhoi cyfle i'r person perthnasol ac i achwynydd wneud sylwadau yn ystod ymchwiliad statudol

6.4 Wrth gynnal ymchwiliad statudol, bydd y Comisiynydd yn rhoi cyfle rhesymol i'r partïon a grybwyllir yng nghymal 6.3 uchod gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r ymchwiliad. Bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i'r partïon hyn am y trefniadau. Caiff y trefniadau gynnwys cyflwyno sylwadau ar lafar neu'n ysgrifenedig.

6.5 Rhaid i'r Comisiynydd ystyried sylwadau a wneir gan y person perthnasol neu gan gynghorydd cyfreithiol sy'n gweithredu ar ran y person perthnasol hwnnw. Bydd y Comisiynydd hefyd yn ystyried sylwadau a wneir gan achwynydd os yw o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny. Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu gwrthod ystyried sylwadau achwynydd, caiff ei hysbysu o'r penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

### Rhoi hysbysiad tystiolaeth i berson perthnasol neu unrhyw berson arall

6.6 Gall hysbysiad tystiolaeth gan y Comisiynydd gynnwys gofyniad i berson perthnasol neu unrhyw berson arall wneud un neu ragor o'r canlynol:

- darparu gwybodaeth sy'n ei feddiant
- cyflwyno dogfennau sy'n ei feddiant neu
- roi tystiolaeth lafar.

6.7 Ni fydd hysbysiad tystiolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i berson perthnasol ddarparu gwybodaeth y gwaherddir iddo'i datgelu yn rhinwedd deddfwriaeth arall. Yn yr un modd, ni fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud unrhyw beth na allai gael ei orfodi i'w wneud mewn achos gerbron yr Uchel Lys. Bydd unrhyw dystiolaeth a dderbynnir gan y Comisiynydd yn cael ei gadw yn unol â Pholisi Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 Comisiynydd y Gymraeg.[15]



6.8 Rhaid i berson ddiystyru hysbysiad tystiolaeth lle bo'n ei gwneud yn ofynnol iddo ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â gwasanaeth cudd-wybodaeth. Manylir ar yr union amgylchiadau hynny yn Rhan 2, Atodlen 10 Mesur y Gymraeg. Mewn amgylchiadau felly, rhaid i'r person hysbysu'r Comisiynydd ei fod yn diystyru'r hysbysiad tystiolaeth.

6.9 Gall person wneud cais i'r Tribiwnlys i ddileu'r hysbysiad tystiolaeth a roddir iddo gan y Comisiynydd ar y sail bod gofyniad a osodir ynddo:

- yn ddiangen o ystyried pwrpas yr ymchwiliad, neu
- yn afresymol neu'n anghymesur mewn modd arall.

6.10 Gall y Comisiynydd, os yw o'r farn fod person sydd wedi derbyn hysbysiad tystiolaeth wedi methu, neu'n debygol o fethu[16], â chydymffurfio â hysbysiad tystiolaeth heb esgus rhesymol, wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gydymffurfio â'r hysbysiad tystiolaeth.

6.11 Caiff y Comisiynydd, os gwêl yn dda, dalu i berson sydd wedi darparu gwybodaeth, cyflwyno dogfennau neu roi tystiolaeth lafar:

- symiau mewn cysylltiad â threuliau a dynnwyd yn briodol gan y person a
- lwfansau yn iawndal am i'r person golli amser.

6.12 Mae symiau a delir mewn cysylltiad â threuliau wedi'u cyfyngu i'r gwir gostau ynghlwm â darparu gwybodaeth, cyflwyno dogfennau neu roi tystiolaeth lafar. Gall hynny gynnwys unrhyw gostau argraffu, copïo, postio, ffonio, neu deithio.

6.13 Mae lwfansau a delir yn iawndal am i'r person golli amser, wedi'u cyfyngu i £25 yr awr am amser y person wrth iddo ganfod a dyfynnu neu ddarparu'r wybodaeth, y ddogfen neu'r dystiolaeth berthnasol.

[15] http://www.comisiynyddygymraeg.org/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Polisi%20Deddf%20Rhyddid%20Gwybodaeth%20 2000%20Comisiynydd%20y%20Gymraeg.pdf
[16] Gweler Atodlen 10, paragraff (11)(1)(b) Mesur y Gymraeg

6.14 Bydd y Comisiynydd ond yn talu'r lwfans yn iawndal am i'r person golli amser pan fo'r gost o gydymffurfio â'r hysbysiad tystiolaeth yn fwy na £450 (18 awr: £450 / £25). Pan fo'r gost o gydymffurfio â'r hysbysiad tystiolaeth yn llai na £450, yr unig gostau y gellir eu hawlio yw'r symiau mewn cysylltiad â threuliau.

6.15 Rhaid i'r person wneud cais i'r Comisiynydd os ydyw'n dymuno hawlio unrhyw gostau i'r perwyl hwn. Rhoddir rhagor o fanylion ynghylch sut i wneud cais o'r fath wrth gyflwyno'r hysbysiad tystiolaeth i'r person.

### Pŵer i fynd i mewn ac i archwilio

6.16 Mae gan y Comisiynydd, neu unrhyw berson a awdurdodir gan y Comisiynydd, y pŵer i fynd i mewn i fangre sydd o dan reolaeth person perthnasol yr ymchwilir iddo. Rhaid bod archwilio'r fangre yn angenrheidiol at ddibenion yr ymchwiliad yn nhyb y Comisiynydd neu'r person awdurdodedig. Er hynny, nid yw'r pŵer hwn yn ymestyn i annedd.[17]

6.17 Nid oes rhaid i'r Comisiynydd wneud apwyntiad a gall fynd i mewn heb roi rhybudd, a hynny ar adeg resymol. Er hynny, bydd y Comisiynydd yn ceisio rhoi rhybudd i unrhyw berson perthnasol, lle bo'n rhesymol gwneud hynny. Os ydy'r Comisiynydd, neu rywun ar ei rhan, yn archwilio'n ddi-rybudd, bydd disgwyl i'r person perthnasol sydd dan ymchwiliad ddarparu rhywun addas i fod yn bresennol yn ystod yr ymchwiliad ac i gynorthwyo'r sawl sydd yn ymchwilio i gydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch, ac ystyriaethau tebyg.

### Dirmyg llys

6.18 Os yw person wedi cyflawni unrhyw weithred a fyddai yn ddirmyg llys pe bai'r ymchwiliad yn achos yn yr Uchel Lys, fe all y Comisiynydd ddyroddi tystysgrif i'r perwyl hwnnw i'r Uchel Lys.

6.19 Gall yr Uchel Lys ymchwilio i'r mater ac, os caiff ei fodloni bod casgliadau'r Comisiynydd yn gywir, caiff drin y person mewn unrhyw ffordd y byddai wedi trin y person pe bai wedi cyflawni dirmyg llys o ran yr Uchel Lys.

6.20 Mae'r pŵer hwn yn ymestyn hefyd i achos lle bo person, heb esgus cyfreithlon, wedi rhwystro'r Comisiynydd rhag cyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.

[17] Gweler Atodlen 10, paragraff (12)(3)(a) Mesur y Gymraeg

## 6 Ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon

### Penderfynu terfynu ymchwiliad statudol

6.21 Gall y Comisiynydd benderfynu terfynu ymchwiliad statudol ar unrhyw adeg. Gall y rhesymau dros benderfynu terfynu ymchwiliad statudol gynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i, amgylchiadau fel y canlynol:

- yr ymchwiliad yn amlygu defnydd anghymesur o adnoddau'r Comisiynydd
- tystiolaeth fod achwynydd wedi cyflwyno gwybodaeth neu dystiolaeth anwir ac wedi gwneud hynny mewn modd anghyfreithlon
- yr ymchwiliad yn amlygu yn fuan nad yw'r person perthnasol wedi methu â chydymffurfio ac felly dim cyfiawnhad dros ddefnyddio adnoddau wrth barhau â'r ymchwiliad
- os yw'r Comisiynydd yn ystyried ei fod yn llesol, yn ei thyb hi, i derfynu'r ymchwiliad er y budd cyhoeddus neu
- y person perthnasol wedi'i ddiddymu.

6.22 Ar adegau pan fydd yn penderfynu terfynu ymchwiliad statudol, bydd y Comisiynydd yn hysbysu'r partïon hynny a nodir yng nghymal 6.3 uchod cyn gynted â phosibl wedi i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, ynghyd â'r rhesymau dros wneud hynny. Os yw'r ymchwiliad statudol yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93 Mesur y Gymraeg, fe hysbysir yr achwynydd o'i hawl, gyda chaniatâd y Tribiwnlys, i wneud cais iddo adolygu'r penderfyniad hwnnw.

### Dyfarnu ar ymchwiliad statudol

6.23 Cyn dyfarnu'n derfynol ar ymchwiliad statudol, bydd y Comisiynydd yn rhoi cyfle i'r partïon a grybwyllir yng nghymal 6.3 uchod wneud sylwadau ynghylch unrhyw gynigion sydd ynghlwm â'r dyfarniad y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei roi ynghyd â'r dyfarniad ei hun. Bydd modd i'r partïon hynny wneud sylwadau, o fewn cyfnod o 28 diwrnod[18].

6.24 Bydd modd i'r partïon hynny wneud sylwadau ynghylch y cynigion canlynol:

- hysbysiad o'r dyfarniad y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei roi
- drafft o adroddiad arfaethedig yr ymchwiliad statudol.

[18] Gweler Adran 85(7) Mesur y Gymraeg

6.25 Wedi iddi roi sylw dyladwy i unrhyw sylwadau a wnaed, bydd y Comisiynydd yn rhoi copïau terfynol o'r hysbysiad penderfynu a'r adroddiad ar yr ymchwiliad i'r partïon.

6.26 Bydd modd i'r person perthnasol hefyd wneud sylwadau ynghylch y cynigion canlynol:

- hysbysiad yn nodi a yw'r Comisiynydd yn bwriadu gweithredu ymhellach ai peidio, a datganiad am resymau'r Comisiynydd dros fwriadu gwneud hynny
- os yw'n bwriadu gweithredu ymhellach, hysbysiad yn nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd, a datganiad am resymau'r Comisiynydd dros fwriadu gweithredu felly a
- chopïau drafft o'r hysbysiad penderfynu y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei roi.

## 7 Dyfarnu ar ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon

7.1 Wedi cynnal ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon, rhaid i'r Comisiynydd ddyfarnu'n derfynol.

7.2 Eglurir isod y gwahanol gamau y gall y Comisiynydd eu cymryd yn ddibynnol ar y math o ddyfarniad a bennir. Bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i'r person perthnasol a'r achwynydd (os yw'r ymchwiliad statudol yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93) am ei dyfarniad drwy gyflwyno hysbysiad penderfynu iddynt.



### Dim methiant i gydymffurfio â safon

7.3 Lle dyfarnir nad yw'r person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon, gall y Comisiynydd wneud y canlynol:

(i) peidio â gweithredu ymhellach neu
(ii) rhoi argymhellion a/neu gyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall.

7.4 Os yw'r ymchwiliad statudol a arweiniodd at y dyfarniad yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93 Mesur y Gymraeg, gall yr achwynydd apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y dyfarniad ar y sail fod y person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon. Rhaid i apêl gael ei gwneud cyn diwedd cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r Comisiynydd yn rhoi'r hysbysiad penderfynu[19]. Rhoddir mwy o fanylion am yr hawl hon wrth gyflwyno hysbysiad penderfynu i'r achwynydd. Mewn apêl o'r fath, gall y person perthnasol wneud cais i'r Tribiwnlys i gael ei ychwanegu'n barti yn yr achos.

### Methiant i gydymffurfio â safon

7.5 Lle dyfarnir bod y person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon, gall y Comisiynydd wneud y canlynol:

(i) peidio â gweithredu ymhellach neu
(ii) un neu fwy o'r canlynol:

- ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd
- ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd
- rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â safon
- ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safon
- gosod cosb sifil ar y person perthnasol neu

[19] Caiff y Tribiwnlys, pan wneir cais ysgrifenedig gan yr achwynydd, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau, yn unol â gofynion adran 99(4) Mesur y Gymraeg.

(iii) un neu fwy o'r canlynol:

- rhoi argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall
- rhoi cyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall
- ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo[20] gyda'r person perthnasol.



7.6 Lle dyfarna'r Comisiynydd fod y person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon, fe all y person perthnasol hwnnw apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y dyfarniad ar y sail na fethodd â chydymffurfio â safon. Rhaid i apêl gael ei gwneud cyn diwedd cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r Comisiynydd yn rhoi'r hysbysiad penderfynu[21]. Rhoddir mwy o fanylion am yr hawl hon wrth gyflwyno'r hysbysiad penderfynu i'r person perthnasol. Mewn apêl o'r fath, ac os yw'r ymchwiliad statudol a arweiniodd at y dyfarniad yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93 Mesur y Gymraeg, fe all yr achwynydd wneud cais i'r Tribiwnlys i gael ei ychwanegu'n barti yn yr achos.

7.7 Os gosodir unrhyw un neu ragor o'r camau a nodir yng nghymal 7.5(ii) uchod ar y person perthnasol, fe all y person perthnasol apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y camau hynny ar y sail eu bod yn afresymol neu'n anghymesur. Yn yr un modd, rhaid i apêl gael ei gwneud cyn diwedd cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r Comisiynydd yn rhoi'r hysbysiad penderfynu[22]. Rhoddir mwy o fanylion am yr hawl hon wrth gyflwyno hysbysiad penderfynu i'r person perthnasol.

### Eglurhad o'r pwerau sydd ar gael i'r Comisiynydd

#### Peidio â gweithredu ymhellach

7.8 Pan fydd y Comisiynydd yn penderfynu peidio â gweithredu ymhellach, ni fydd yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau pellach. Serch hynny, bydd y ddyletswydd i gydymffurfio â'r safon yn parhau.

#### Rhoi argymhellion a/neu gyngor

7.9 Pan fydd y Comisiynydd yn penderfynu rhoi argymhellion a/neu gyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall yn sgil dyfarniad o fethiant i gydymffurfio, bydd yn gwneud hynny gyda'r bwriad o roi arweiniad ynghylch sut i atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Lle dyfarnir na fu methiant i gydymffurfio, gall y Comisiynydd roi argymhellion a/neu gyngor i berson perthnasol neu i unrhyw berson arall at y diben o sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

[20] Gweler Adran 91 Mesur y Gymraeg
[21] Caiff y Tribiwnlys, pan wneir cais ysgrifenedig gan y person perthnasol, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau, yn unol â gofynion adran 95(6) Mesur y Gymraeg.
[22] Eto, caiff y Tribiwnlys, pan wneir cais ysgrifenedig gan y person perthnasol, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau, yn unol â gofynion adran 95(6) Mesur y Gymraeg.

## 7 Dyfarnu ar ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon

### Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd

7.10 Pan fydd y Comisiynydd yn penderfynu ei gwneud hi'n ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd, bydd yr hysbysiad penderfynu yn nodi'r hyn sy'n ofynnol iddo'i wneud. Bydd yr hysbysiad penderfynu hefyd yn cynnwys manylion ynghylch yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r drafft cyntaf o'r cynllun i sylw'r Comisiynydd, ynghyd â'r canlyniadau os nad yw'n cydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.



7.11 Oni fydd y cynllun drafft cyntaf a ddaw i sylw'r Comisiynydd yn ddigonol at ddibenion atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd, bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad i'r person perthnasol i'r perwyl hwnnw ac yn ei wneud yn ofynnol iddo roi drafft diwygiedig i'r Comisiynydd o fewn amser penodedig. Gall y Comisiynydd hefyd wneud argymhellion ynghylch cynnwys y drafft diwygiedig hwnnw.

7.12 Wrth ystyried a yw cynllun gweithredu drafft yn ddigonol, gall y Comisiynydd roi hysbysiad tystiolaeth i unrhyw berson a/neu fynd i mewn i fangre'r person perthnasol fel y gall wneud mewn perthynas ag ymchwiliad statudol fel y nodir yng nghymalau 6.6 – 6.17 y polisi hwn.

7.13 Gall y Comisiynydd hefyd wneud cais i lys sirol am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cynllun drafft cyntaf neu gynllun drafft diwygiedig i'r Comisiynydd erbyn amser a bennir yn y gorchymyn. Mewn perthynas â chynllun drafft diwygiedig, gall y gorchymyn hefyd gynnwys cyfarwyddiadau ynghylch cynnwys y cynllun.

7.14 Daw cynllun gweithredu i rym naill ai:

- ar ddiwedd cyfnod o chwe wythnos yn dechrau ar y dyddiad y rhoddir y drafft cyntaf neu ddrafft diwygiedig i'r Comisiynydd, os daw'r cyfnod hwnnw i ben heb i'r Comisiynydd roi hysbysiad i'r person perthnasol fel y nodir yng nghymal 7.11 uchod neu heb i'r Comisiynydd wneud cais i lys sirol fel y nodir yng nghymal 7.13 uchod neu
- ar yr adeg pryd y bydd llys sirol yn gwrthod gwneud gorchymyn fel a nodir yng nghymal 7.13 uchod mewn perthynas â chynllun drafft diwygiedig.

### Gofyniad i gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd

7.15 Pan fydd y Comisiynydd yn penderfynu ei gwneud hi'n ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd, bydd yr hysbysiad penderfynu yn nodi'r hyn sy'n ofynnol iddo'i wneud a'r canlyniadau os nad yw'n cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Bydd y camau penodol yn dod yn effeithiol ar ôl i'r cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwneud apêl ddod i ben.

## 7 Dyfarnu ar ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon

### Rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant[23]

7.16 Pan fydd yn penderfynu rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â safon, gall y Comisiynydd benderfynu rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- datganiad bod y person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon neu
- adroddiad ar yr ymchwiliad statudol.

7.17 Yn yr un modd, pan fydd y Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio, gall ei gwneud yn ofynnol iddo roi cyhoeddusrwydd i unrhyw un neu ragor o'r uchod neu unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â methiant y person perthnasol i gydymffurfio â safon.

7.18 Bydd yr hysbysiad penderfynu yn nodi'r hyn y mae'r Comisiynydd i'w wneud a/neu yr hyn y mae angen i'r person perthnasol ei wneud er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd, a'r canlyniadau os nad yw'r person perthnasol yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Bydd y ddyletswydd i roi cyhoeddusrwydd yn dod yn effeithiol ar ôl i'r cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwneud apêl ddod i ben.

### Cosbau sifil

7.19 Pan fydd y Comisiynydd yn penderfynu gosod cosb sifil ar y person perthnasol, yr uchafswm fydd £5,000. Noder, fodd bynnag, fod modd i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, roi swm gwahanol i'r uchafswm hwn.

7.20 Bydd yr holl gosbau sifil a ddaw i law yn cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru[24].

7.21 Mewn perthynas â chosb sifil, bydd yr hysbysiad penderfynu yn cynnwys y manylion canlynol:

- swm y gosb sifil
- sut y caniateir i'r gosb sifil gael ei thalu
- y cyfnod erbyn pryd y mae'n rhaid talu'r gosb sifil
- y canlyniad os na chaiff y gosb ei thalu.

7.22 Gweler adran 9 y polisi hwn am ragor o fanylion ynghylch penderfyniadau'r Comisiynydd mewn cyswllt â chosbau sifil.

[23] Gweler Adran 81 Mesur y Gymraeg
[24] Sefydlwyd y Gronfa gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cronfa ydyw o arian cyhoeddus a gaiff ei ddyrannu i Gymru drwy amryfal ffynonellau.

## 7 Dyfarnu ar ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon



### Cytundebau Setlo

7.23 Wrth ymrwymo mewn cytundeb setlo bydd y Comisiynydd yn cytuno i beidio â chymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r methiant tra bo'r person perthnasol yn cytuno i beidio â methu â chydymffurfio ag un neu ragor o safonau; gweithredu mewn ffordd benodol; neu beidio â gweithredu mewn ffordd benodol.

7.24 Nid oes gorfodaeth ar y person perthnasol i ymrwymo mewn cytundeb setlo ond os yw'n gwrthod gwneud hynny, gall y Comisiynydd benderfynu arfer pwerau gorfodi eraill.

7.25 Ni fernir bod y person perthnasol wedi cyfaddef y methiant i gydymffurfio dim ond oherwydd ei fod wedi ymrwymo mewn cytundeb setlo.

### Apelau gan yr achwynydd a'r person perthnasol

7.26 Manylir ar hawl person perthnasol, ac achwynydd, os yw'r ymchwiliad statudol yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93 Mesur y Gymraeg, i apelio yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynydd mewn cyswllt â dyfarnu ar ymchwiliad statudol yng nghymalau 7.4, 7.6 ac 7.7 y polisi hwn. Wrth ddyfarnu ar apêl, gall y Tribiwnlys naill ai gadarnhau neu ddiddymu dyfarniad y Comisiynydd. Mewn apêl fel a nodir yng nghymal 7.7,gall y Tribiwnlys gadarnhau, amrywio neu ddiddymu'r camau gorfodi.

7.27 Mae i unrhyw benderfyniad gan y Tribiwnlys pan wneir apêl yr un effaith â dyfarniad y Comisiynydd, a gellir ei orfodi yn yr un modd.

7.28 Os nad yw'r person perthnasol, neu'r achwynydd, os yw'r ymchwiliad statudol yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93 Mesur y Gymraeg, yn barti mewn apêl, bydd y Comisiynydd yn ei hysbysu o benderfyniad y Tribiwnlys.

7.29 Wedi hynny, gall y Comisiynydd, yr achwynydd neu'r person perthnasol, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol yn deillio o benderfyniad y Tribiwnlys.

7.30 Gall yr Uchel Lys gadarnhau penderfyniad y Tribiwnlys neu osod ei benderfyniad o'r naill du. Os bydd yr Uchel Lys yn gosod penderfyniad y Tribiwnlys o'r naill du, bydd rhaid iddo naill ai anfon yr achos yn ôl i'r Tribiwnlys i'w ailystyried neu ail-wneud y penderfyniad ei hun.

7.31 Noder bod yr apelau yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys. Ceir manylion pellach am y rheolau hynny ynghyd â manylion ynghylch sut i wneud apêl drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Tribiwnlys.

## 8 Methiant i gydymffurfio â safon

8.1 Lle dyfarnir, ar ddiwedd ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon, bod y person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon, bydd y Comisiynydd yn mynd ati i benderfynu pa gamau sydd i'w cymryd fel ymateb i'r methiant hwnnw.



8.2 Gan y bydd amgylchiadau pob methiant yn amrywio, bydd y Comisiynydd yn ystyried ffeithiau pob achos yn unigol. Bydd y Comisiynydd yn penderfynu ym mha fodd y dylid gweithredu, a hynny at y diben o atal methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

8.3 I'r perwyl hwn, gall y Comisiynydd weithredu drwy un neu ragor o'r dulliau canlynol[25]:

(i) adfer cydymffurfiaeth yn sgil y methiant
(ii) gorfodi cydymffurfiaeth yn sgil y methiant gan gynnwys
(iii) gosod cosb sifil am y methiant.

### Adfer cydymffurfiaeth yn sgil y methiant

8.4 Cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, bydd y Comisiynydd yn ceisio sicrhau bod person perthnasol yn adfer cydymffurfiaeth o'i wirfodd yn sgil y methiant. Bydd rhaid i'r Comisiynydd gael sicrwydd digonol ynghylch parodrwydd y person perthnasol i gydweithio ac i gymryd camau i atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

8.5 I'r perwyl hwn, mae sawl cam y gall y Comisiynydd benderfynu eu cymryd sef:

- peidio â gweithredu ymhellach neu
- roi cyngor a/neu argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall a/neu
- geisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol.

8.6 Bydd yr union gamau y bydd y Comisiynydd yn penderfynu eu cymryd yn dibynnu ar union natur y methiant dan sylw ynghyd â'r amgylchiadau cysylltiedig.

### Gorfodi cydymffurfiaeth yn sgil y methiant

8.7 Lle nad yw'n bosibl sicrhau bod person perthnasol yn adfer cydymffurfiaeth o'i wirfodd yn sgil y methiant, bydd y Comisiynydd yn cymryd camau i'w orfodi i gydymffurfio.

[25] Gweler Adran 77 Mesur y Gymraeg

8.8 I'r perwyl hwn, mae sawl cam y gall y Comisiynydd benderfynu eu cymryd sef:

- ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau penodol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd a/neu
- ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd a/neu
- roi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio a/neu
- ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio.

### Gosod cosb sifil am y methiant

8.9 Gyda methiannau o'r math mwyaf difrifol, bydd y Comisiynydd o'r farn fod angen gosod cosb sifil ar y person perthnasol ynghyd â chamau gorfodi eraill, a hynny er mwyn atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Bydd gosod cosb sifil ar berson perthnasol hefyd yn fodd i'r Comisiynydd sicrhau bod hawliau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu gwarchod. Eto, bydd amgylchiadau pob methiant yn amrywio o achos i achos.

8.10 Cyflwyna'r ffigwr isod drosolwg o'r camau y bydd y Comisiynydd yn eu cymryd gan amlaf. Mae'r ffigwr hefyd yn adlewyrchu nod y Comisiynydd o ganolbwyntio ar ganlyniadau wrth reoleiddio, a defnyddio'r gosb sifil gyda'r methiannau mwyaf difrifol yn unig.

**Adfer cydymffurfiaeth yn sgil y methiant**

- Peidio â gweithredu ymhellach
- Rhoi cyngor a/neu argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall
- Ceisio ymrywmo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol

**Gorfodi cydymffurfiaeth yn sgil y methiant**

- Ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol lunio cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu ddigwydd eto
- Ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau penodol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu ddigwydd eto
- Rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â safon
- Ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'r methiant

**Gosod cosb sifil am y methiant**

- Gosod cosb sifil ar y person perthnasol

## 9 Cosb sifil



9.1 Mae Mesur y Gymraeg yn gosod dyletswydd benodol ar y Comisiynydd i roi sylw i rai materion penodol wrth ystyried a yw am roi cosb sifil i berson perthnasol am fethu â chydymffurfio, â swm y gosb honno.

9.2 Y materion penodol hynny y mae'n ofynnol i'r Comisiynydd roi sylw iddynt yw'r canlynol:

- pa mor ddifrifol yw'r mater y mae'r gosb sifil i'w rhoi mewn cysylltiad ag ef
- amgylchiadau'r person y mae'r gosb sifil i'w rhoi iddo a'r
- angen am atal parhau neu ailadrodd y mater y mae'r gosb sifil i'w rhoi mewn cysylltiad ag ef.

9.3 Nid yw'r uchod yn atal y Comisiynydd rhag rhoi sylw i faterion eraill. Nid yw unrhyw un o'r materion hyn yn bwysicach na'i gilydd.

### Materion perthnasol eraill

9.4 Gall y Comisiynydd roi sylw i unrhyw fater arall sy'n berthnasol, yn nhyb y Comisiynydd, wrth benderfynu a ddylid rhoi cosb sifil i berson perthnasol ai peidio.

9.5 Fel mater o bolisi, wedi i'r Comisiynydd benderfynu rhoi cosb sifil i berson perthnasol, gall cosb fod yn unrhyw swm, hyd at uchafswm o £5,000. Gobaith y Comisiynydd wrth ddefnyddio'r gosb sifil fydd sicrhau ataliaeth ddigonol mewn perthynas â'r methiant; atal personau perthnasol eraill rhag methu â chydymffurfio yn yr un modd ynghyd â sicrhau y caiff hawliau defnyddwyr y Gymraeg eu gwarchod yn ddigonol.

## 10 Methiant i gydymffurfio â cham gorfodi neu gytundeb setlo



10.1 Mewn achosion lle bo'r Comisiynydd wedi ymrwymo mewn cytundeb setlo â'r person perthnasol neu wedi gosod un neu fwy o gamau gorfodi arno, bydd y Comisiynydd yn gwirio cydymffurfiaeth â'r gofynion hynny er mwyn sicrhau bod yr amcanion rheoleiddio yn cael eu cyflawni.

10.2 Gall ddod i'r amlwg mewn rhai achosion fod person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn. Gydag achosion felly, bydd y Comisiynydd yn ymateb drwy gymryd camau pellach yn erbyn y person perthnasol.

### Methiant i gydymffurfio â chytundeb setlo

10.3 Os amlygir drwy dystiolaeth bod person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â gofyniad mewn cytundeb setlo, gall y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn i orfodi'r person perthnasol i gydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.

10.4 Noder bod hawl y Comisiynydd i wneud cais i lys sirol am orchymyn i orfodi cydymffurfiaeth â chytundeb setlo yn gymwys am gyfnod perthnasol o 5 mlynedd[26] sy'n dechrau ar y diwrnod yr ymrwymir iddo yn y cytundeb setlo.

### Methiant i gydymffurfio â cham gorfodi

10.5 Os amlygir bod person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi a osodwyd arno, mae sawl cam gwahanol y gall y Comisiynydd ei gymryd yn erbyn y person perthnasol. Fel gyda'r uchod, fe all y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn i orfodi'r person perthnasol i gydymffurfio â'r cam gorfodi.[27] Mae hawl y Comisiynydd i wneud cais i lys sirol am orchymyn i orfodi cam gorfodi yn gymwys am gyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad penderfynu i'r person perthnasol. Os yw person perthnasol wedi llunio cynllun gweithredu, caiff y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn i'w gwneud yn ofynnol i sefydliad gydymffurfio gyda'r cynllun gweithredu hwnnw. Yn yr achos hwnnw, mae hawl y Comisiynydd i wneud y fath gais yn gymwys am gyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r cynllun gweithredu i rym.

10.6 Gall y Comisiynydd hefyd gynnal ymchwiliad statudol pellach i a yw person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi a osodwyd arno. Dim ond y materion a restrir yn adran 71(2) o'r Mesur y gall y Comisiynydd gynnal ymchwiliad iddo - ac nid yw'n cynnwys cosb sifil.

[26] Gweler Adran 92(2) Mesur y Gymraeg

[27] Ni all y Comisiynydd wneud cais i'r uchel lys mewn perthynas ag ei gwneud yn ofynnol i berson perthnasol baratoi cynllun gweithredu na chosb sifil a osodwyd. Gweler paragraff 10.9 isod mewn perthynas â chosb sifil.

10.7 Yn wahanol i ymchwiliad statudol a gynhelir i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon, nid oes rhaid i'r Comisiynydd amau bod person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi er mwyn cynnal ymchwiliad statudol fel a amlinellir yn 10.6.

10.8 Os oes gan y Comisiynydd dystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â cham gorfodi, ni fydd y Comisiynydd yn rhoi cyfle i'r person perthnasol ymateb i'r honiadau cyn mynd ati i benderfynu a ddylid cynnal yr ymchwiliad ai peidio. Ac eithrio hynny, dilynir yr un prosesau ag a amlinellir yn adrannau 6 – 9 o'r polisi hwn, gan eithrio unrhyw gyfeiriadau sydd at achwynydd a gan ddarllen unrhyw gyfeiriad at 'safon' fel cyfeiriad at 'gam gorfodi'. Noder bod gan y Comisiynydd yr un pwerau ar gael ag sydd mewn ymchwiliad statudol i amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon.[28]

10.9 Mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â chosb sifil a osodir, nid yw adran 10 y polisi hwn yn berthnasol. Er hynny, gall y Comisiynydd adfer cosb sifil na chaiff ei thalu fel dyled sy'n ddyledus i'r Comisiynydd. Gall hynny gynnwys cymryd camau cyfreithiol yn erbyn y person perthnasol yn y Llys Sifil.

[28] Noder mai dim ond mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â safon y gall y Comisiynydd geisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda pherson perthnasol.

## 11 Cydweithio â'r Ombwdsmon a chomisiynwyr eraill

111 Mae adrannau 20 a 21 Mesur y Gymraeg yn amlinellu i ba raddau y gall y Comisiynydd weithio'n gyfochrog â'r Ombwdsmon[29] a chomisiynwyr eraill[30].

112 Os yw'n ymddangos i'r Comisiynydd y gallai pwnc ymchwiliad statudol y Comisiynydd hefyd fod yn destun ymchwiliad gan yr Ombwdsmon neu gomisiynydd arall, bydd y Comisiynydd, os yw o'r farn fod hynny'n briodol, yn gwneud y canlynol:

- hysbysu'r Ombwdsmon neu'r comisiynydd perthnasol o'r ymchwiliad statudol, gan gynnwys cynigion y Comisiynydd ar gyfer ymgymryd â'r ymchwiliad statudol ac
- ymgynghori â'r Ombwdsmon neu'r comisiynydd perthnasol mewn perthynas â'r ymchwiliad statudol.

113 Os canfyddir, yn sgil yr uchod, bod y ddau barti yn ymchwilio i fater cysylltiedig, gallant wneud un neu ragor o'r canlynol:

- cydweithredu â'i gilydd mewn perthynas â'u gwahanol ymchwiliadau
- cynnal ymchwiliad ar y cyd a
- pharatoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd mewn perthynas â'u gwahanol ymchwiliadau neu â'u hymchwiliad ar y cyd.

114 Os na fydd y Comisiynydd yn ymgymryd ag ymchwiliad statudol, bydd y Comisiynydd, os yw o'r farn fod hynny'n briodol, yn rhoi gwybodaeth i'r person sy'n dymuno dwyn yr achos ynglŷn â sut i gyfeirio'r mater cysylltiedig at yr Ombwdsmon neu gomisiynydd perthnasol arall. Bydd y Comisiynydd hefyd yn rhoi'r wybodaeth honno i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn yr achos.

[29] Sef Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
[30] Sef Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar hyn o bryd. Fe all Gweinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr yma o Ombwdsmyn a Chomisiynwyr drwy orchymyn.

## 12 Cofrestr camau gorfodi

12.1 Yn unol ag adran 109(1) Mesur y Gymraeg, mae'n rhaid i'r Comisiynydd gynnal cofrestr camau gorfodi sy'n nodi manylion yr holl ymchwiliadau statudol a gynhaliwyd gan y Comisiynydd.



12.2 Mae copi o'r gofrestr gyfredol ar gael i'w harchwilio yn swyddfa'r Comisiynydd ac mae copi electronig ar gael ar wefan y Comisiynydd.

12.3 Mae'r gofrestr yn cynnwys y manylion canlynol:

- disgrifiad o bob ymchwiliad statudol a gynhaliwyd gan y Comisiynydd
- canfyddiadau'r Comisiynydd ar yr ymchwiliadau statudol
- dyfarniad y Comisiynydd ar yr ymchwiliadau statudol
- datganiad sy'n nodi a weithredodd y Comisiynydd ymhellach ai peidio
- os gweithredodd y Comisiynydd ymhellach, datganiad ynglŷn â'r gweithredu hwnnw
- manylion hysbysiadau penderfynu a
- manylion apelau a wnaed i'r Tribiwnlys o dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.

12.4 Bydd y Comisiynydd yn diweddaru'r gofrestr yn barhaus. Bydd manylion yn y gofrestr yn cael eu cadw yn unol â Pholisi Cadw a Gwaredu Dogfennau y Comisiynydd.

## 13 Rhestr termau



13.1 Nid yw'r rhestr termau canlynol yn cynnwys diffiniadau cyfreithiol ond maent yn rhoi eglurhad cryno o'u hystyron.

| Term | Eglurhad |
|---|---|
| **Camau gorfodi** | Camau gorfodi yw'r enw a roddir ar y camau canlynol:<br>○ gofyniad ar y person perthnasol i baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd<br>○ gofyniad ar y person perthnasol i gymryd camau penodol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd<br>○ y Comisiynydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant person perthnasol i gydymffurfio<br>○ gofyniad ar y person perthnasol i roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio a<br>○ chosb sifil a osodir ar y person perthnasol. |
| **Cofrestr camau gorfodi** | Dyma'r enw a roddir ar y gofrestr y mae'n rhaid i'r Comisiynydd ei chynnal. Gweler adran 12 y polisi hwn am ragor o fanylion. |
| **Comisiynydd** | Mae pob cyfeiriad at y Comisiynydd yn y ddogfen hon yn gyfeiriad at Gomisiynydd y Gymraeg, swydd a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |
| **Cwynion gwacsaw a blinderus** | Y bwriad mewn achosion o'r fath yw i atal unrhyw gwynion sydd yn amlwg yn hollol ddi-sail, lle bod y cwynion o bosib yn rhai sydd wedi eu dwyn o'r blaen, neu lle nad oes gobaith neu sail i ystyried y byddai'r gŵyn yn llwyddo. |

## 13 Rhestr termau



| Term | Eglurhad |
|---|---|
| **Cwyn** | Cwyn y gall unrhyw berson ei chyflwyno i'r Comisiynydd ynglŷn ag ymddygiad person perthnasol mewn cysylltiad â safon y mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â hi. Gweler adran 4 y polisi hwn am ragor o fanylion. |
| **Cytundeb setlo** | Mae ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo yn un o'r camau y gall y Comisiynydd eu cymryd ar ôl dyfarnu, yn sgil ymchwiliad statudol, fod person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â safon. Gweler cymalau 7.23 – 7.25 y polisi hwn am ragor o fanylion. |
| **Diwrnod gosod** | Y diwrnod oddi ar bryd y mae'n ofynnol i berson perthnasol gydymffurfio â safon, neu â safon mewn modd penodol fel y'u pennwyd mewn Hysbysiad Cydymffurfio. |
| **Hysbysiad cydymffurfio** | Hysbysiad a roddir gan y Comisiynydd i berson perthnasol sy'n pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â hwy ynghyd â'r diwrnodau gosod ar gyfer y safonau hynny fel y'i pennir yn yr hysbysiad hwnnw. |
| **Hysbysiad tystiolaeth** | Hysbysiad y gall y Comisiynydd ei roi i berson mewn ymchwiliad statudol. Gall hysbysiad tystiolaeth gynnwys gofyniad ar berson i wneud un neu ragor o'r canlynol:<br>◦ darparu gwybodaeth sy'n ei feddiant<br>◦ cyflwyno dogfennau sy'n ei feddiant a<br>◦ rhoi tystiolaeth lafar.<br><br>Gweler cymalau 6.6 – 6.10 y polisi hwn am ragor o fanylion. |

## 13 Rhestr termau



| Term | Eglurhad |
| --- | --- |
| **Mesur y Gymraeg** | Mae pob cyfeiriad at Fesur y Gymraeg yn y ddogfen hon yn gyfeiriad at Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |
| **Person perthnasol** | Person perthnasol yw'r enw a roddir ar sefydliad sydd o dan ddyletswydd i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad. |
| **Polisi Gorfodi** | Y ddogfen hon. Dogfen ydyw y mae'n ofynnol i'r Comisiynydd ei llunio o dan adran 108 Mesur y Gymraeg ac sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth ar y ffordd y mae'r Comisiynydd yn bwriadu mynd ati i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd o dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.<br><br>Ni chaniateir i'r Comisiynydd lunio na diwygio'r ddogfen heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. |
| **Pŵer i fynd i mewn i fangre ac i archwilio** | Pŵer sydd gan y Comisiynydd mewn cysylltiad ag ymchwiliad statudol. Gall y Comisiynydd fynd i mewn i fangre sydd o dan reolaeth person perthnasol yr ymchwilir iddo os yw o'r farn fod ei harchwilio yn angenrheidiol at ddibenion yr ymchwiliad. Gweler cymalau 6.16 a 6.17 am ragor o fanylion.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn gymwys hefyd mewn perthynas â bod y Comisiynydd yn ystyried a yw cynllun gweithredu drafft yn ddigonol. Gweler cymal 7.12 am ragor o fanylion. |
| **Safonau** | Mae pob cyfeiriad at safonau yn y ddogfen hon yn cyfeirio at safonau ymddygiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau. Ceir safonau yn y pum dosbarth canlynol:<br><br>o cyflenwi gwasanaethau<br>o llunio polisi<br>o gweithredu<br>o hybu a<br>o chadw cofnodion. |

## 13 Rhestr termau



| Term | Eglurhad |
| --- | --- |
| **Swyddogaethau rheoleiddiol** | Dyma'r enw a ddefnyddir i ddisgrifio dyletswyddau a phwerau'r Comisiynydd o dan Ran 5 Mesur y Gymraeg. |
| **Y Tribiwnlys** | Mae pob cyfeiriad at y Tribiwnlys yn y ddogfen hon yn gyfeiriad at Dribiwnlys y Gymraeg. Sefydlwyd y Tribiwnlys gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ddelio ag apelau a cheisiadau am adolygiad o rai o benderfyniadau'r Comisiynydd. Gellir cael mwy o wybodaeth drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Tribiwnlys. |
| **Ymchwiliad statudol** | Ymchwiliad statudol yw ymchwiliad a gynhelir gan y Comisiynydd o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn dyfarnu a yw person perthnasol wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodwyd arno ai peidio. Gall gofyniad o'r fath fod yn safon y mae'n ofynnol i'r person perthnasol gydymffurfio â hi neu'n gam gorfodi a osodwyd arno yn sgil ymchwiliad statudol blaenorol. Nid yw hyn yn cynnwys methiant i gydymffurfio â chosb sifil. |

## 14 Gweithdrefn gwyno am weithredoedd y Comisiynydd

14.1 Mae gan y Comisiynydd weithdrefn gwyno benodol ar gael os bydd unrhyw berson yn dymuno cwyno am weithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.



14.2 Mae'r weithdrefn hon wedi ei sefydlu yn unol ag adran 14 Mesur y Gymraeg.

14.3 Mae manylion pellach am y weithdrefn hon ar gael ar ei wefan neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd ac ar gael yn swyddfeydd y Comisiynydd.

14.4 Gellir cysylltu â'r Comisiynydd drwy ddefnyddio'r manylion isod:

- Ffôn: 0845 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygymraeg.org
- Gwefan: comisiynyddygymraeg.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner